

Jeremy Miles AC

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

4 Rhagfyr 2019

Gwaith dilynol ar barodrwydd ar gyfer Brexit

Annwyl Jeremy,

Mae materion yn ymwneud â pharodrwydd gwasanaethau cyhoeddus a sectorau allweddol yr economi ar gyfer Brexit wedi bod yn ganolog i'n gwaith craffu ers refferendwm 2016. Rydym wedi gwneud gwaith manwl o'r blaen mewn nifer o feysydd gan gynnwys:

- **goblygiadau Brexit i borthladdoedd Cymru;**
- **adroddiad ar sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit;**
- ein casgliadau ni ynghylch sut **mae sectorau allweddol yr economi yn paratoi ar gyfer Brexit;** a
- ein gwaith ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru ar **barodrwydd y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

O gofio'r dyddiad cau 31 Hydref 2019, gwnaethom drefnu sesiynau tystiolaeth gyda'r sector trafniadaeth; ffermio a bwyd; a chynrychiolwyr gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Mae rhestr lawn i'w gweld yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Cynhaliwyd y sesiynau tystiolaeth ar **4** a **11** Tachwedd 2019. Mae trawsgrifiadau o'r sesiynau ar gael i'w darllen ar-lein.

Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau craffu gyda Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn Llywodraeth y DU, Michael Gove AS, a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, James Duddridge AS. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i'r Pwyllgor holi uwch Weinidogion Llywodraeth y DU ynghylch eu gwaith yn paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb, yn ogystal â meysydd gwaith ehangach fel cysylltiadau rhynglywodraethol, fframweithiau cyffredin a pherthynas y DU â'r UE ar ôl Brexit. Rydym hefyd yn ddiolchgar ichi am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 4 Tachwedd, pan wnaethom hefyd drafod parodrwydd ar gyfer Brexit.

Yn dilyn y sesiynau, rydym yn ysgrifennu gyda nifer o gwestiynau, canfyddiadau a chasgliadau, a nodir isod.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ SeneddMADY@cynulliad.cymru

☎ 0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ SeneddEAAL@assembly.wales

☎ 0300 200 6565

Cefndir

Mae'n werth nodi bod y cyd-destun o ran cefndir ein gwaith wedi cynnwys cryn ansicrwydd. O'r herwydd, mae ffocws ein gwaith wedi dibynnu ar wahanol senarios.

Cytunodd Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar Gytundeb Ymadael diwygiedig ar 17 Hydref. Gan mwyaf, nid oedd y Cytundeb Ymadael diwygiedig wedi newid o'r cytundeb y cytunwyd arno gan Theresa May ym mis Hydref 2018, ac eithrio'r Protocol ar Ogledd Iwerddon, a newidiwyd mewn nifer o ffyrdd arwyddocaol.

Ar ôl i'r Cytundeb Ymadael diwygiedig gael ei gytuno, cytunodd Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd i estyn cyfnod Erthygl 50. Y dyddiad newydd ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd yw 31 Ionawr 2020. Cafodd Senedd y DU wei diddymu, a galwyd etholiad cyffredinol i'w gynnal ar 12 Rhagfyr 2019.

Mae ein barn a'n casgliadau yn cael eu cyflwyno felly yn y cyd-destun hynod newidiol hwn.

Porthladdoedd a Thrafnidiaeth;

Cawsom rywfaint o sicrwydd gan gynrychiolwyr Grŵp Porthladdoedd Cymru a'r Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau mewn perthynas â pharodrwydd porthladdoedd Cymru. Roedd y prif destun pryder i'r sector yn ymwneud â'r cynigion diwygiedig ar gyfer ffin Dwyrain-Gorllewin ("ar hyd môr Iwerddon") rhwng ynys Iwerddon a Phrydain Fawr. Dywedodd Grŵp Porthladdoedd Cymru, er y byddai'r Cytundeb Ymadael diwygiedig yn golygu mai rheolaethau tebyg iawn fyddai angen eu gorfodi ar wasanaethau llongau rhwng Gogledd Iwerddon a Lloegr a'r Alban yn ogystal â rhwng porthladdoedd Cymru a Gweriniaeth Iwerddon, byddai'n dal i fod yn her fawr i'r gweithredwyr ac yn newid diwylliant sylweddol y byddai'n rhaid iddynt arfer ag ef.¹ Galwodd Grŵp Porthladdoedd Cymru a'r Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau (FTA) am fwy o eglurder ar oblygiadau'r Cytundeb Ymadael diwygiedig, a'r trefniadau tymor hwy, i'w sector.

Roedd ein gwaith blaenorol yn dangos bod risg y byddai cludiant cargo a chludiant nwyddau sy'n osgoi porthladdoedd Cymru drwy ffin tir agored Iwerddon ynghyd â chludiant dirwystyr o Ogledd Iwerddon i'r Alban neu Loegr. Ein dealltwriaeth ni, a dealltwriaeth y sector, yw y gallai'r Cytundeb Ymadael diwygiedig, leihau'r risg hon.

Pryder mwy dybryd yw'r asesiad o effaith bosibl y Cytundeb Ymadael diwygiedig ar brif borthladdoedd Ro-Ro Cymru - yn enwedig porthladd Caergybi. Mae Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn, Michael Gove, wedi dweud wrthym na chynhaliwyd asesiad o'r effaith a'i bod yn "anodd" cael asesiad effaith gyda "chymaint o ffactorau sy'n newid yn barhaus".

- 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r ffyrdd y mae'n pwysu ar Lywodraeth y DU i gynnal asesiad effaith llawn o'r Cytundeb Ymadael diwygiedig ar borthladdoedd Cymru.***

¹ Caiff bob dyfyniad a chyfeiriad eu cymryd o Gofnod y Trafodion [4 Tachwedd](#) a [11 Tachwedd](#) 2019



O ran gosod seilwaith newydd ym mhorthladdoedd Cymru, clywsom fod angen eglurder cyn gynted â phosibl ynghylch yr angen am seilwaith newydd o ganlyniad i'r Cytundeb Ymadael a'r Protocol diwygiedig ar Ogledd Iwerddon.

- 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i ni ar y paratodau ar gyfer seilwaith newydd ym mhorthladdoedd Cymru (i ganiatáu gwiriadau tollau posibl a gwiriadau eraill), gan gynnwys manylion am drefniadau ariannu seilwaith o'r fath.***

Trafodwyd mater 'Porthladdoedd Rhydd' yn ystod ein sesiynau gyda rhanddeiliaid, ac yn ein gwaith blaenorol ar borthladdoedd. Yn ein hadroddiad yn 2017 ar oblygiadau Brexit i borthladdoedd Cymru, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i fod yn "fwy rhagweithiol yn ei dull" o ddynodi Porthladdoedd Rhydd. Yn ein gwaith mwy diweddar, clywsom fod gwaith ar y gweill i greu Porthladdoedd Rhydd newydd yn y DU (fel yr amlinellwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol, Elizabeth Truss AS).

Rydym yn ymwybodol bod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Medi ynghylch ei Phanel Cyngori ar Borthladdoedd Rhydd. Nododd mai ychydig iawn o ymgysylltiad a fu gan Lywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru ar y pryd, a gofynnodd am sicrwydd y dylid cynnwys Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn.

Nodwn fod creu Porthladdoedd Rhydd newydd yn un o amcanion datganedig yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol. Rydym yn glir bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi safbwynt wedi'i datblygu'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch manteision ac anfanteision creu Porthladdoedd Rhydd newydd yng Nghymru a'r effaith y gallai creu Porthladdoedd Rhydd mewn rhannau eraill o'r DU ei chael ar Gymru.

- 3. I'r perwyl hwnnw, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil bellach ar fanteision ac anfanteision posibl Porthladdoedd Rhydd i Gymru a'r effaith y gallai creu Porthladdoedd Rhydd mewn rhannau eraill o'r DU ei chael ar economi Cymru, er mwyn llywio sut mae'n ymgysylltu â gwaith y DU yn y maes hwn, gan rannu'r gwaith hwn gyda'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r ymchwil.***
- 4. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i ni ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Panel Cyngori ar Borthladdoedd Rhydd, ac am ei farn ynghylch a yw'r panel yn rhoi ystyriaeth ddigonol i borthladdoedd Cymru.***

Bwyd a Ffermio

Yn ein sesiynau gydag Undeb Ffermwyr Cymru (FUW), NFU Cymru, a Hybu Cig Cymru (HCC), clywsom am nifer o faterion yn ymwneud â pharoddrwydd y sector bwyd-amaeth. O ran paroddrwydd cyffredinol, cytunodd y tri phanel fod paratodau ar gyfer senario 'dim bargaen' bosibl ym mis Hydref yn well, ac yn fwy datblygedig, nag yr oeddent wedi bod yn y cyfnod cyn y dyddiad gadael gwreiddiol fis Mawrth 2019.

Dywedodd HCC, wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru, eu bod wedi "gwneud mwy o waith" o ran dod o hyd i farchnadoedd newydd ar gyfer y sector cig coch. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi



hefyd y byddai'n anodd iawn cael yr un sefyllfa ag a gafwyd â marchnad yr UE o 500 miliwn o gwsmeriaid, a oedd wedi'i hadeiladu dros gyfnod o dros 40 mlynedd, yn y tymor byr o leiaf, ac y byddai marchnadoedd newydd yn cymryd blynyddoedd lawer i ymsefydlu.

Rydym yn croesawu'r ymdrechion i agor marchnadoedd newydd ar gyfer y sector cig coch, ac fe wnaethom argymhell yn ein hadroddiad ym mis Rhagfyr 2018 ar barodrwydd y sector bwyd a diod yng Nghymru fod strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru (a ddisgwylir yn 2020) yn gosod "targedau clir ac uchelgeisiol" ar gyfer cynyddu mynediad Cymru at farchnadoedd newydd i allforio cynhyrchion bwyd a diod.

5. Byddem yn croesawu diweddariad ar waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn gan gynnwys yr amserlenni disgwylidig ar gyfer cyhoeddi'r strategaeth bwyd a diod newydd.

Ailadroddodd HCC y farn y dylai'r DU geisio alinio'n agos â'r UE yn rheoliadol, a mynegodd bryderon ynghylch y ffaith bod cytundeb Boris Johnson yn dibynnu ar y DU yn gadael Undeb Tollau'r UE. Yn yr un modd, mynegodd yr FUW ac NFU Cymru bryderon ynghylch y trefniadau mwy llac yn y dyfodol (gyda rhagor o rwystrau masnach) rhwng y DU a'r UE fel yr awgrymwyd gan y Datganiad Gwleidyddol diwygiedig yn nodi'r fframwaith ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Nodwn bryderon y sector mewn perthynas â threfniadau masnachu yn y dyfodol. Rydym yn cytuno y dylai'r berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol flaenoriaethu masnach ddirwysr, yn rhydd o rwystrau tariff a rhwystrau nad ydynt yn ymwneud â thariffau. Byddwn yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn.

Mynegodd y ddau undeb ffermio bryderon ynghylch effaith negyddol yr ansicrwydd parhaus o ran perthnasoedd masnachu y DU â'r UE a gweddill y byd yn y dyfodol. Dywedasant ei bod yn anodd iawn i fusnesau ffermio gynllunio'n ddigonol ar gyfer y tymor hir o dan yr amgylchiadau hyn. Yn ogystal, amlygodd tri chynrychiolydd o'r sector bryderon bod polisi domestig diweddar a chynigion deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru wedi ychwanegu at yr ansicrwydd i'r diwydiant yng Nghymru a achoswyd gan Brexit.

At hynny, nododd FUW ac NFU Cymru ei bod yn well gan Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil Amaethyddiaeth yn benodol i Gymru, a mynegwyd pryder nad oedd y gwaith polisi manwl yr oedd ei angen i ategu Bil penodol i Gymru wedi digwydd eto.

Pwysleisiodd NFU Cymru mai'r 'un rheoliad nad yw o fewn y cytundeb ymadael yw'r rheoliad ar daliadau uniongyrchol'. Amlygodd y byddai angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod deddfwriaeth ar waith yn 'eithaf cyflym' i sicrhau y byddai'r rheoliad taliadau uniongyrchol yn parhau trwy gydol unrhyw gyfnod pontio.

Pwysleisiodd y ddau undeb ffermio hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n fwy â rhanddeiliaid o'r sector wrth ddatblygu polisi'r dyfodol.



Nodwn y pryderon sylweddol a fynegwyd inni gan gynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio yn enwedig mewn perthynas ag effaith ansicrwydd parhaus; diffyg deddfwriaeth benodol i Gymru; ac yn fwy cyffredinol ynghylch datblygu polisi'r dyfodol yn y maes hwn, ar ôl Brexit.

- 6. Rydym yn bwriadu crybwyll y rhain wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a gobeithiwn y byddant yn rhoi ystyriaeth iddynt yn rhagweithiol fel rhan o'u gwaith craffu parhaus ar Lywodraeth Cymru a'u gwaith polisi yn y maes hwn.***

Wrth drafod parodrwydd y sector milfeddygol, nododd NFU Cymru fod cyllid ar gael trwy Gronfa Pontio'r UE gan Lywodraeth Cymru i uwchsgilio'r sector milfeddygol yng Nghymru, a nododd fod "nifer sylweddol" o filfeddygon yng Nghymru wedi manteisio ar y gefnogaeth honno. Fodd bynnag, dywedasant hefyd ei bod yn anodd mesur a oedd nifer ddigonol o filfeddygon, gyda'r sgiliau cywir, ar gael i gynnal gwiriadau cynyddol ar ôl i'r DU adael yr UE. Yn yr un modd, cytunodd HCC fod risgiau na fyddai'r sector milfeddygol yn barod am fwy o wiriadau ar ôl i'r DU adael yr UE. Fe wnaethant nodi hefyd bod pryderon yn y sector prosesu cig yn ehangach ynghylch argaeledd gweithwyr llafur gan fod y sector yn ddibynnol iawn ar weithwyr mudol o Ewrop.

Parodrwydd gwasanaethau cyhoeddus

Rhoddodd cynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus allweddol – ym meysydd iechyd, addysg uwch, a llywodraeth leol – rywfaint o sicrwydd i'r Pwyllgor o ran parodrwydd gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei adroddiad diweddaraf ar barodrwydd Brexit.

Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru wrthym fod byrddau iechyd lleol wedi gwneud gwaith manwl, gan gynnwys creu Pecyn Cymorth ar Brexit, a bod negeseuon yn eu barn hwy yn cyrraedd staff y GIG, ond yn llai felly'r sector gofal cymdeithasol.

Dywedodd CLILC fod gan bob un o'r 22 awdurdod lleol Gydlynwyr Brexit, a bod awdurdodau lleol wedi'u hannog i rannu negeseuon allweddol gyda staff rheng flaen.

Nododd CLILC a Chyddfederasiwn y GIG fod angen mwy o waith i ddeall goblygiadau cytundebau masnach yn y dyfodol i Gymru a'u priod sectorau. Dywedodd Cydffederasiwn y GIG fod Cydffederasiwn y GIG yn Llundain wedi llunio briff ar drefniadau masnach yn y dyfodol a'r effeithiau ar y GIG, a'i fod yn debygol o lunio fersiwn benodol i Gymru maes o law.

O ran y gweithlu a recriwtio, dywedodd CLILC a Chyddfederasiwn y GIG wrthym fod gwaith parodrwydd Brexit wedi arwain at fuddion o ran gwell dealltwriaeth o'u gweithluoedd a data ar y gweithluoedd hynny. Mynegodd Cydffederasiwn y GIG a Phrifysgolion Cymru bryderon hefyd ynghylch effaith negyddol bosibl newidiadau yn y dyfodol i reolau rhyddid i symud wrth recriwtio i'w sectorau.



Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'n gwaith craffu parhaus ar broses Brexit.

O ran rhyddid i symud, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ar y goblygiadau i Gymru ac rydym yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu cadw llygad ar yr hyn fel maes polisi sy'n esblygu.

Cyfnod pontio a'r risg o senario 'dim bargaen'

Mynegodd mwyafrif y rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy bryderon penodol ynghylch effaith 'dim bargaen'. Amlygodd yr FTA, ac eraill, o dan delerau'r Cytundeb Ymadael diwygiedig, y gallai'r DU barhau i wynebu Brexit "ymyl dibyn" ar ddiwedd y cyfnod pontio os na cheir cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE. Mynegodd Grŵp Porthladdoedd Cymru amheuron ynghylch yr amserlenni cyfredol, gan ddadlau y byddai angen cyfnod pontio hirach ar gyfer ymadawiad "dirwystr". Ar hyn o bryd, bwriedir i'r cyfnod pontio ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020, ond gellid ei ymestyn unwaith am hyd at ddwy flynedd os yw'r UE a'r DU yn cytuno ar estyniad erbyn 1 Gorffennaf 2020


Tynnodd yr FUW sylw hefyd at y ffaith y byddai canlyniad o'r fath yn arbennig o niweidiol i'r sector amaeth yng Nghymru gan nodi nad yw cyfraddau tariff mewn senario 'dim bargaen' "yn rhoi cefnogaeth o blaid cynhyrchu bwyd ym Mhrydain" a chymharodd y cynigion â "falf" - hynny yw, byddent yn caniatáu bwyd i mewn, ond byddai rhwystr sylweddol i allforion Prydain.

Rydym yn cydnabod y risgiau yn sgil senario 'dim bargaen' ar ddiwedd y cyfnod pontio fel yr amlygwyd gan rhanddeiliaid, ac rydym yn parhau i fod â phryderon sylweddol am ganlyniad o'r fath a goblygiadau niweidiol hynny i Gymru.

- 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu sicrhau bod y sector yn cael cefnogaeth ddigonol os na fydd 'bargaen' ar ddiwedd y cyfnod pontio (hynny yw, os na fydd cytundeb masnach rydd yn ei le erbyn diwedd y cyfnod pontio) ac i amlinellu pa wersi y mae wedi'u dysgu o'i pharatoadau yn sgil tri dyddiad gadael blaenorol Erthygl 50.***

Edrychaf ymlaen at eich ymateb o fewn yr amserlen arferol a byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir,



David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

